**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 28 Tachwedd 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | R Fogarty | Y V Jardine |
| H Lawson | J E Pritchard | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Rheolwr Gwasanaeth Trechu Tlodi |
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd H Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Cymorth) |
| Julia Manser | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A J Jeffery, A Pugh

---

## 24 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd H Lawson gysylltiad personol â Chofnod rhif 26 "Datblygu Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe".

## 25 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**26 Datblygu Strategaeth Wirfoddoli Cyngor Abertawe.**

Darparodd Anthony Richards, Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'i Atal, gyda chefnogaeth Julia Manser, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA) adroddiad "er gwybodaeth" ar ddatblygiad Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys Polisi Gwirfoddolwyr arfer da a amlinellwyd yn Atodiad A i'w ystyried.

Roedd sylwadau gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Dylai'r polisi amlinellu na fyddai gwirfoddolwyr yn cymryd lle unrhyw rôl gyflogedig ond yn gweithio ochr yn ochr â hi;
- Sicrhau cysondeb ar draws adrannau, gan gynnwys treuliau;
- Asesiad Effaith Integredig (IIA) i'w ddiweddaru wrth i'r broses fynd yn ei blaen;
- Cynnwys hyperddolen i "Siarter TUC ar gyfer Cryfhau'r Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflogedig a Gwirfoddolwyr" yn y polisi drafft;

Unwaith y byddai'r polisi drafft wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor, byddai angen ei gyfeirio at y Tîm Rheoli Corfforaethol neu i'r Cabinet/cyngor. Yn ogystal, byddai angen ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a byddai pecyn cymorth yn cael ei lunio. Byddai cyfathrebu ar draws y cyngor yn dilyn i sicrhau bod pob adran yn cadw at y polisi newydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y diweddariad a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at dderbyn y polisi drafft yn y Flwyddyn Newydd.

**27 Cynllun Gwaith 2022-2023.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2022-2023.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

23 Ionawr 2022:
- Polisi/Canllaw Arfer Gorau Cydlynu Ardaloedd Lleol newydd, gan gynnwys Recriwtio
- Creu gweithlu i ddarparu mwy o wasanaethau gofal yn uniongyrchol (Cefnogi a datblygu gweithlu a strategaeth a chynllun lles ar gyfer y Gyfarwyddiaeth)

27 Chwefror 2022:
- Polisi Drafft Strategaeth Gwirfoddoli Cyngor Abertawe
- Polisi Dyledion Corfforaethol

Daeth y cyfarfod I ben am 4.29 pm

**Cadeirydd**